# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 27 Mehefin,2 204.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, S. Campbell, W. Gilligan, E.J. Goodjohn, E. Goodjohn, S.J. Haines, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, N.B. Marshallsea and H.M. Payne.

Aelodau Cyfetholedig: M. Price (Eglwys Gatholig Rufeinig), L. Barrowclough (Rhiant Lywodraethwr – Sector Cynradd), G. van der Burgt (Rhiant Lywodraethwr – Sector Uwchradd), G. Scott (Addysg Gymraeg), E. Woodfield a I. Da Silva (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

## 164 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 165 PENODI IS-GADEIRYDD –

ARGYMHELLWYD – Y Cynghorydd H.M. Payne yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

## 166 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill, 2024 fel cofnod cywir.

## 167 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd E. Goodjohn fuddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas ag Eitem 6 ar yr Agenda - Crynodeb o Arolygiadau Estyn o Wasanaeth Addysg yr Awdurdod Lleol a’r Gwasanaeth Ieuenctid yn Nhymor y Gwanwyn 2024. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Goodjohn yn rhan o’r arolygiad o

y Gwasanaeth Ieuenctid. Gadawodd y Cynghorydd Goodjohn y cyfarfod am gyfnod yr eitem.

168 DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAD PERFFORMIAD PANEL A CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2024.

Cyflwynodd yr adroddiad Galendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2024/25 a oedd yn amlinellu'r gweithgareddau a fyddai'n cael eu hystyried gan yr Aelodau drwy gydol y flwyddyn. Amlinellodd yr adroddiad hefyd gynnig i ymgysylltu ag Aelodau Etholedig wrth lunio'r prosesau, y cynlluniau a'r adroddiadau allweddol a oedd yn cyd-fynd â'r Calendr Perfformiad Blynyddol er mwyn gallu bodloni gofynion perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (LIE) (Cymru) 2021 a chyfrannu at nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LICD) (Cymru) 2015.

Eleni roedd dwy agwedd ychwanegol ar y Calendr Perfformiad yr oedd angen eu hystyried - datblygu Cynllun Corfforaethol newydd a'r trefniadau ar gyfer cynnal Asesiad Perfformiad Panel (APP).

Nododd yr adroddiad y dull a oedd yn cael ei weithredu i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol pum mlynedd newydd ar gyfer 2025-2030 a fyddai'n cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2025. Byddai gwaith ar Gynllun Corfforaethol newydd yn cynnwys datblygu Amcanion Lles newydd a dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau.

Nododd yr adroddiad y cwmpas a'r amserlen ddangosol ar gyfer cynnal APP y Cyngor yn hydref 2024. Wedi'i gyflwyno gan y Ddeddf LIE, diben yr APP oedd darparu her allanol annibynnol i helpu i lywio taith wella'r Cyngor drwy adeiladu ar ei hunanasesiad blynyddol ei hun. Byddai'r APP yn asesu i ba raddau yr oedd y Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad (hynny yw, arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan ddefnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol ac arfer llywodraethu da) ac roedd hefyd yn gyfle i ystyried gwaith a oedd yn cael ei wneud fel rhan o ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2025-30. Cynigiwyd y dylai'r APP ganolbwyntio ar y newidiadau a oedd yn cael eu gwneud a'r dull a oedd yn cael ei weithredu i gyflawni'r hyn yr oedd ei angen i sicrhau bod y Cyngor yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a'r dyfodol ac i wella gwydnwch y sefydliad.

Roedd y canfyddiadau allweddol a'r dysgu o'r adolygiad o ddull Hunanasesiad Blynyddol y flwyddyn flaenorol hefyd wedi'u nodi yn yr adroddiad yn ogystal â chynigion i wella'r broses ymhellach yn barod ar gyfer hunanasesiad 2023/24.

Byddai hunanasesiad y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023/24 yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024. Roedd yr amserlen hon yn cyd-fynd â'r trefniadau rheoli perfformiad presennol a byddai'n galluogi dwyn ynghyd fewnwelediadau allweddol sy'n gysylltiedig â pherfformiad a llywodraethu drwy gydol y flwyddyn mewn

dyfarniad cryno ar ba mor dda yr oedd gofynion perfformiad y Ddeddf LIE yn cael eu bodloni.

Roedd Atodiad A yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am raglen dreigl o waith ar y cyd ag Aelodau drwy gydol Calendr Perfformiad Blynyddol 2024/25 i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a chryfhau eu hymwneud â'r gwaith o lunio a mireinio'r cynlluniau, yr adroddiadau a'r prosesau allweddol a fyddai'n eu cefnogi yn eu rôl allweddol o asesu a oedd y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Lles, yn sicrhau gwerth am arian ac yn gwella lles ei ddinasyddion.

Gofynnodd y Cynghorydd E. Goodjohn sut y byddai'r Cyngor yn sicrhau y byddai'r asesiad annibynnol yn cynorthwyo i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau fod yr amserlen arfaethedig wedi'i hintegreiddio - y bwriad oedd i'r APP gael ei ddefnyddio i hwyluso'r Cyngor wrth gwblhau'r Cynllun Corfforaethol drafft newydd. Felly, byddai'r Panel yn cael ei ddefnyddio fel ffurf o gadarnhad bod y Cyngor yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Byddai adborth gan y Panel yn cael ei ystyried.

Gofynnodd y Cynghorydd E. Goodjohn hefyd pa fath o drafodaethau gafodd y Cyngor ag Awdurdodau Lleol eraill. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr, o ran yr APP, ei fod yn ddull newydd er bod cynllun peilot wedi'i gynnal gydag un Awdurdod Lleol arall. Felly, roedd y Cyngor ar flaen y broses asesu ac roedd yn rhy gynnar o ran nodi gwersi gan Gynghorau eraill. Roedd hefyd yn bwysig nodi y byddai pob APP yn arbennig i bob Cyngor lleol, yn enwedig o ran y fframwaith a'r drefn arolygu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Payne at gyfansoddiad yr APP a sylwodd fod cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol. Dywedodd y Cynghorydd Payne y byddai'n syniad da hefyd pe bai cynrychiolaeth o'r Cyngor Ieuenctid. Mewn ymateb, cytunodd y Cyfarwyddwr gyda'r Cynghorydd Payne ac roedd mwy o gynrychiolaeth ieuenctid yn rhywbeth yr oedd Estyn wedi'i gydnabod a'i annog.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch yr hyn yr oedd y Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod yr Hunanasesiad yn ystyried yn llawn yr ystod eang o safbwyntiau a godwyd gan drigolion, dywedodd y Cyfarwyddwr fod ystod o weithgareddau ymgysylltu wedi'u cynllunio ac y byddai'r rheiny'n cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.

Wedi hynny,

ARGYMHELLWYD -

(1) Cytuno ar Galendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2024/25 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau.

(2) Bod sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael eu cyfeirio at y Cabinet, gyda phwyslais arbennig ar gais y Pwyllgor i gael cynrychiolaeth Ieuenctid ar Asesiad Perfformiad y Panel.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

169 CRYNODEB O AROLYGIADAU ESTYN O WASANAETH ADDYSG YR AWDURDOD LLEOL A'R GWASANAETH IEUENCTID TYMOR Y GWANWYN 2024 (CDS) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ganlyniad arolygiadau Estyn o Wasanaeth Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid Bro Morgannwg.

Cafodd Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid Bro Morgannwg eu harolygu gan Estyn fel cynllun peilot dan ddull a fframwaith arolygu diwygiedig yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2024. Roedd yr adroddiadau llawn ar ganlyniad arolygiadau'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Gwasanaeth Addysg yn Atodiadau A a B yr adroddiad.

Yn sgil fframwaith newydd Estyn, disodlwyd astudiaethau achos o arfer arloesol neu effeithiol gan gameos yng nghorff yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd adroddiad arolygu'r Gwasanaeth Addysg yn cynnwys astudiaeth achos na ellid ei dal mewn cameo. Roedd adroddiad y Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnwys 4 cameos ac roedd adroddiad y Gwasanaeth Addysg yn cynnwys 5 cameo ac astudiaeth achos.

Ar y cyfan, cadarnhaodd yr arolygiadau ymrwymiad Cyngor Bro Morgannwg i ddarparu gwasanaethau addysg ac ieuenctid o ansawdd uchel, gyda chryfderau penodol mewn cynwysoldeb, gweithio mewn partneriaeth, a gwelliant parhaus. Derbyniodd y Gwasanaeth Ieuenctid un argymhelliad: Datblygu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Derbyniodd y Gwasanaethau Addysg ddau argymhelliad:

- Argymhelliad 1: Cryfhau ffocws prosesau gwerthuso a gwella.
- Argymhelliad 2: Gwella ansawdd gwybodaeth am ddysgu ac addysgu mewn ysgolion a'r ffordd y caiff ei defnyddio er mwyn galluogi'r Awdurdod Lleol i gyfeirio ei adnoddau at feysydd i'w gwella orau.

Ni nodwyd unrhyw waith dilynol gan Estyn mewn perthynas â'r Gwasanaethau Ieuenctid ac Addysg. Byddai camau i fynd i'r afael â'r argymhellion yn cael eu nodi a'u datblygu fel rhan o drefniadau cynllunio gwella a monitro perfformiad y Cyngor.

Tynnodd y Cynghorydd Payne sylw at sylwadau Estyn am ansawdd uchel y gwaith o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid. Dywedodd y Cynghorydd Payne, fel gweithiwr ieuenctid ei hun a oedd wedi bod yn rhan o arolwg 2004, ei fod yn ymwybodol o ba mor anodd oedd gwneud sylw o'r fath yn ystod arolygiad. Felly, canmolodd y Cynghorydd Payne y gwasanaeth am y canlyniad gwych yn dilyn yr arolwg.

Dywedodd y Cynghorydd Marshallsea ei fod hefyd am dynnu sylw at ddau ddyfyniad o fewn yr arolwg sef bod ansawdd y gwaith ieuenctid yn gyson uchel a beth bynnag yw'r rhwystrau, na fyddai'r gwasanaeth byth yn rhoi'r gorau i anghenion ei bobl ifanc. Felly, dywedodd y Cynghorydd Marshallsea ddiolch i'r tîm. Gofynnodd hefyd sut byddai'r Gwasanaeth Ieuenctid yn datblygu cyfleoedd Cymraeg. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Arweiniol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles fod rhai cynlluniau cyffrous ynghylch argymhelliad Estyn. Roedd Estyn wedi nodi bod aelodau o staff yn y Gwasanaeth Ieuenctid gyda rhai sgiliau Cymraeg ond nad oedd ganddynt hyder wrth ddefnyddio'r sgiliau hynny. Felly, byddai proses yn cael ei datblygu i ganiatáu cyfleoedd fel y gellid gwella sgiliau'r staff. Roedd nod hefyd i feithrin diwylliant ac ethos lle'r oedd staff yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus wrth ddefnyddio eu sgiliau iaith.

Dywedodd y Cynghorydd Hodges ei bod yn wir ei fod yn adroddiad da iawn, a'i fod yn falch bod yr un argymhelliad gan Estyn wedi'i nodi a bod gan y Cyngor gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwnnw. Rhoddodd y Cynghorydd Hodges air o rybudd y byddai heriau ariannol y wlad yn golygu y byddai gostyngiadau yn y gyllideb yn debygol o gael eu gosod a bod angen gwrthwynebu unrhyw doriadau i'r Gwasanaethau Ieuenctid.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor, L. Burnett, gyda chaniatâd i siarad, at baragraff cyntaf yr adroddiad arolygu a oedd yn ymwneud â'r weledigaeth i greu cymunedau cryf â dyfodol disglair, ac a oedd yn sail i bob penderfyniad. Roedd yr arolwg wedi tynnu sylw at y gwaith cryf gyda ffocws ar ddarparu'r gorau i'n pobl ifanc. Roedd hynny o ganlyniad i'r diwylliant o fewn y Gyfarwyddiaeth ac roedd hefyd yn adlewyrchiad cadarnhaol o'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau. Canmolodd yr Arweinydd y Cyfarwyddwr a'r tîm cryf a oedd wedi ei gefnogi ers iddo gael ei benodi 8 mlynedd yn ôl, gan gyfeirio at y rhaglen adeiladu ysgolion, yr ymateb i bandemig Covid-19 a chanlyniadau cadarnhaol arolwg Estyn.

Dywedodd y Cynghorydd Haines fod 19 ysgol yn y Fro gyda diffyg yn y gyllideb neu'n debygol o fod â diffyg yn y gyllideb o fewn y pum mlynedd nesaf. Felly, gofynnodd y Cynghorydd Haines beth oedd y cynlluniau ar gyfer y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r diffygion hynny. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau fod y Cyngor wedi cymryd camau priodol a'i fod yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion hynny. Byddai'r ysgolion hynny hefyd yn cael eu cynnwys yn Rhaglen Trawsnewidiol y Cyngor er mwyn eu cynorthwyo i fantoli eu cyllidebau. Yn ogystal, byddai'r Cyngor yn cefnogi'r ysgolion hynny er mwyn datblygu Cynllun Adfer y Gyllideb a byddai'r Cyngor yn eu cynorthwyo i nodi camau y gellid eu cymryd i leihau gwariant. Un maes gwaith a fyddai'n cael ei annog oedd ymwneud â chlystyrau ysgolion a oedd, er enghraifft, yn galluogi cwmpas i leihau costau caffael. Er y byddai'r rhagolygon ariannol yn heriol am y blynyddoedd ariannol rhagweladwy, dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn optimistaidd, trwy gydweithio a gweithio ar draws y Cyngor gyda phob ysgol, y gellid dod o hyd i atebion.

Ychwanegodd y Cynghorydd Haines fod angen i Lywodraeth Cymru gydnabod bod tlodi yn y Fro, a oedd angen cyllid ychwanegol. Dywedodd y Cyfarwyddwr ymhellach fod angen mwy o gyllid ar ysgolion ond y byddai hynny'n dod o gyllid a

gafwyd gan Lywodraethau Cymru a'r DU.  Pe bai'r fformiwla gyllido'n cael ei hadolygu, y gobaith oedd y byddai mwy o arian yn cael ei ddyrannu i Fro Morgannwg.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at sylw yn yr adroddiad am weithwyr ieuenctid ac yn enwedig y Tîm Lles yn chwarae rhan sylweddol wrth gefnogi iechyd meddwl a lles pobl ifanc.  Gofynnodd y Cadeirydd a allai'r swyddog ehangu a rhoi mwy o fanylion.  Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Arweiniol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles y ceir mynediad at y Tîm Lles Ieuenctid drwy linell gynghori Teuluoedd yn Gyntaf a'i fod yn system yn seiliedig ar atgyfeiriadau lle byddai'r Tîm yn ceisio sefydlu perthynas â'r bobl ifanc ar sail un i un.  Byddai'r Tîm yn ceisio mentora gan ddefnyddio eu sgiliau gwaith ieuenctid i ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn meithrin perthynas er mwyn ceisio mynd i'r afael ag anghenion yr unigolion.  Roedd y Tîm yn gweithio'n agos gydag ysgolion yn aml, yn enwedig ar faterion yn ymwneud ag ymddieithrio.  Roedd y Tîm yn cynnwys yr arfer da o rannu sgiliau o amgylch y grŵp staff, er enghraifft roedd un o aelodau'r tîm yn fedrus ac yn brofiadol iawn o ran dysgu awyr agored felly dyna fyddai ei brif ffocws ac roedd yn rhywbeth a fyddai'n cael ei drosglwyddo i aelodau eraill y Tîm.  Felly, byddai'r Tîm yn gallu darparu ystod o wahanol ddulliau yn eu gwaith o ddydd i ddydd gyda'r bobl ifanc er mwyn eu cynorthwyo i ymgysylltu â'r Cyngor a'r ysgolion.  Y prif amcan oedd bod y person ifanc yn teimlo bod ganddo berthynas ag oedolyn dibynadwy fel y gellid goresgyn rhwystrau posibl a fyddai'n helpu i fagu hyder y person ifanc.

Dywedodd y Cynghorydd Birch, yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg gyda chaniatâd i siarad, fod agweddau eraill i'w hamlygu yn adroddiad Estyn yn enwedig mewn perthynas ag astudiaethau achos a chameos  Nodwyd bod yr Adrannau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd er mwyn hyrwyddo addysg, ac felly canmolwyd cydweithrediad adrannol yn fawr.  Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at rai cameos fel un yn ymwneud â gwrth-hiliaeth a amlygodd ddatblygiad proffesiynol parhaus staff y Cyngor.  Felly, gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Pwyllgor gofnodi diolch a llongyfarchiadau i'r adran gyfan, yn enwedig i'r staff yr oedd yr arolwg wedi achosi llawer o straen emosiynol, corfforol a seicolegol iddynt.  Felly, dymunai'r Aelod Cabinet gofnodi diolch a gwerthfawrogiad i'r ddwy adran am y canlyniadau arolygu cadarnhaol.

Wedi hynny,

ARGYMHELLWYD – Nodi canlyniad Arolygon Estyn o Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid, a llongyfarch yr Adran ar yr adroddiad arolwg cadarnhaol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

170 CRYNODEB O GANLYNIADAU AROLYGIAD ESTYN AR GYFER TYMOR Y GWANWYN 2024 A'R DIWEDDARAF AR YSGOLION MEWN DILYNIANT STATUDOL (CDS) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ganlyniadau Estyn o ran ysgolion a arolygwyd yn ystod tymor gwanwyn 2024, a chynnydd ysgolion o ran mesurau dilynol statudol.

Arolygodd Estyn ansawdd a safonau mewn addysg ledled Cymru. Yn ystod tymor gwanwyn 2024, arolygwyd dwy ysgol gynradd (Ysgol Gymraeg Dewi Sant ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint Andras). Nid oedd angen mesurau dilynol statudol (Gwelliant Sylweddol a Mesurau Arbennig) nac Adolygiad Estyn ar unrhyw un o'r ysgolion hyn.

Roedd dwy ysgol o Fro Morgannwg, Ysgol Pen y Garth ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre, yn parhau yng nghategori mesurau dilynol statudol Estyn. Roedd y ddwy ysgol yn destun Mesurau Arbennig yn dilyn eu harolygiadau yn ystod tymor hydref 2022. Roedd cynnydd y ddwy ysgol yn cael ei fonitro gan Estyn bob tymor. Roedd Ysgol Gynradd Llanfair yn destun Adolygiad Estyn yn dilyn ei harolwg yng ngwanwyn 2023. Byddai cynnydd yr ysgol wedi'i wneud tuag at fynd i'r afael â'i hargymhellion yn cael ei adolygu tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Marshallsea at ymweliad diweddar gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu ag Ysgol Uwchradd Pencoedtre a soniodd am ba mor ymlaciedig a hyderus yr oedd yn teimlo wedi ymweld. Dywedodd y Cynghorydd Marshallsea ei bod yn amlwg bod y Pennaeth wedi datblygu amgylchedd strwythuredig o fewn yr ysgol a bod cynllun trylwyr o sut y byddai'r ysgol yn cael ei gwella. Roedd y ffaith bod 12 athro newydd yn dechrau ym mis Medi yn dystiolaeth o hynny. Dywedodd y Cynghorydd Marshallsea y byddai'n teimlo'n hyderus wrth anfon ei blant i'r ysgol honno ac y byddai hefyd yn teimlo'n hyderus wrth weithio ym Mhencoedtre.

Wedi hynny

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi cynnydd y ddwy ysgol yn y Mesurau Arbennig.

(2) Y dylid anfon llongyfarchiadau'r Pwyllgor at y ddwy ysgol a arolygwyd yn ystod tymor y Gwanwyn gan nad oedd unrhyw weithgarwch dilynol gan Estyn.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn anfon llongyfarchiadau’r Pwyllgor ymlaen at y ddwy ysgol a arolygwyd yn ystod tymor y Gwanwyn.

171 TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI 4YDD CHWARTER 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2024/25 (CAC) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol ac amserlen arfaethedig y Flaenraglen Waith ar gyfer 2024/25:

- Olrhain Argymhellion Chwarter 4, mis Ionawr i fis Mawrth 2024 (Atodiad A);
- Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2024/25 (Atodiad B);
- Amserlen Arfaethedig y Flaenraglen Waith Flynyddol ar gyfer 2024/25 (Atodiad C)

Dywedodd y Cadeirydd fod dau adroddiad a restrwyd ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf, yn ymwneud ag adroddiadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol a Diweddariad Ymgysylltiad a Dilyniant Ieuenctid wedi llithro i gyfarfod mis Medi.

ARGYMHELLWYD -

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(2) Nodi Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2024/25 sydd ynghlwm yn Atodiad B, yng nghyd-destun Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant 2024/25.

(3) Bod atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2024/25, sydd ynghlwm yn Atodiad C, yn cael ei chymeradwyo a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Alinio ag Adran 7.6 o Brotocolau Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.

(3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.